CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION

Dydd Iau, 21 Medi 2023 – Ystafell Gyfarfod 6 yng Nghanolfan Ddysgu yr Heddlu ym Mhencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

1a. Yn bresennol

Dr John William Devine (Cadeirydd)
Dr Jacqueline Gantley
Ms Claire Corrigan
Mrs Bronwen Williams

ACC Danny Richards
Prif Uwch-arolygydd Mark Lenihan
Y Prif Arolygydd Donna Llewellyn
Mr Lee Jones

Ms Carol Woodward
Mr Martyn Jones
Ditectif Arolygydd Jack Whiskerd
Rhingyll Sian O'Shea

Ms Lucy Durnell
Ms Amy Davies (Ysgrifenyddiaeth)
Ms Holly Watson (Cofnodion)

Dilema naloxone
Y Prif Arolygydd Stuart Johnson - *Cyflwynydd*
Ms Louise Emmitt – *Gwasanaethau Cyfreithiol*
Mary Halligan – *Unsain*
Gwylan Brinkworth – *GMB*

Twyll rhamant
Yr Arolygydd Carys Lewis - *Cyflwynydd*
Ms Louise Voisey – *Arweinydd Diogelu Data*
Y Ditectif Arolygydd Leeann Saunders - *Adran Diogelu'r Cyhoedd*
Rhingyll Joanna Threadgold

Ymddiheuriadau:
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Mr Joga Singh
Ms Jayne Woodward
Ms Nia Brennan
Arolygydd Matthew Hicks
Rhingyll Jennifer Owen

2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod. Cyflwynodd y cyfyng-gyngor ar Naloxone a Thwyll Rhamant, gan nodi bod y ddau yn ymwneud â dyletswydd cymorth i'r cyhoedd. Cyflwynodd y Pwyllgor eu hunain i'r siaradwyr gwadd.

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 08/06/2023 Y Cadeirydd

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 8 Mehefin 2023.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
10.06.2021.1	John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried a fydd gwaith ychwanegol sy'n cael ei ymgymryd gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor yn cael ei gydnabod a'i ariannu a sut bydd hynny'n cael ei wneud.	John William Devine	**Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â PGC Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n gwneud gwaith ychwanegol (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor. **Diweddariad 17.12.2021:** Bydd sgyrsiau'n cael eu cynnal mewn perthynas â chydnabyddiaeth am waith a gwblhawyd gan aelodau o'r Pwyllgor. **Diweddariad 31.03.2022:** Cyfarfu'r Cadeirydd â PGC Travis and Lee Jones i drafod mater cydnabyddiaeth i aelodau o'r pwyllgor sy'n gwneud gwaith ymchwil ar

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
			ben eu rôl ar y pwyllgor. Trafodir yr eitem hon yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. **Diweddariad 29.06.2022:** Trafododd y Cadeirydd y cam hwn â PGC Travis a Lee Jones yn flaenorol. Lluniodd eu trafodaethau ddau linyn: cydnabyddiaeth a sefydlu panel cynghori. Yn absenoldeb Lee Jones a PGC Travis, bydd y panel cynghori'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Trafodwyd cydnabyddiaeth dan unrhyw fater arall. **Diweddariad 08.12.2022:** Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o sefydlu grŵp cynghori arbenigol o dan Unrhyw Fater Arall. **Diweddariad 10.03.2023:** Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o grŵp cynghori arbenigol, cafodd hyn ei gymeradwyo yn gyffredinol. Bydd y Cadeirydd yn cael cyfarfod â Lee Jones yn y dyddiau nesaf, a bydd y Cadeirydd yn tynnu sylw Lee at y mater hwn. **Diweddariad 08.06.2023:** Mae'r Cadeirydd yn aros am ddiweddariad. **Diweddariad 21.09.2023:** Trafododd y Cadeirydd a Lee yr angen am banel cynghori arbenigol. Cytunodd y ddau nad oedd angen ffurfio panel o'r fath ar frys o wybod yr amrywiaeth o sgiliau a chefndiroedd proffesiynol sydd yn y Pwyllgor a'r posibilrwydd o ofyn am arbenigedd ychwanegol pan fo angen. **Gollyngwyd y cam gweithredu.**

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

4.1 Twyll Rhamant

Cyflwynodd yr Arolygydd Carys Lewis y cyfyng-gyngor ar dwyll rhamant a dechreuodd drwy roi cefndir a chyd-destun iddo.

Tua blwyddyn yn ôl, bu'r Arolygydd Lewis yn gweithio fel Dirprwy Arolygydd Plismona Lleol yn Nhrelái, Gorsaf Heddlu Treganna. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth ar draws achos yn cynnwys dyn yn ei chwedegau a oedd wedi wynebu twyll rhamant dro ar ôl tro. Rhoddodd y dioddefwr wybod i'r heddlu saith gwaith rhwng 2019 a 2023. Anfonodd y dioddefwr symiau mawr o arian (cyfanswm o £20,000) i fenyw a oedd yn honni ei bod wedi gwasanaethu ym Myddin yr Unol Daleithiau. Mae'r fenyw yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r dioddefwr ac yn defnyddio technegau sy'n gwneud iddo deimlo'n flin drosti. Mae'n gwrthod gwneud cwyn ffurfiol i'r heddlu am dwyll rhamant, ond ar adegau pan nad yw wedi troi fyny i gyfarfodydd y cytunwyd arnynt, mae wedi cysylltu â'r heddlu i wneud cwyn. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau yn nodi mai enw'r fenyw yw 'Sofia'.

Ar yr adegau pan siaradodd yr heddlu â'r dioddefwr, daeth y swyddogion i'r casgliad bod ganddo'r gallu i feddwl yn rhesymegol am y mater penodol hwn, ond nad yw'n ymddangos ei fod yn gwneud hynny. Mae'r dioddefwr o'r farn mai Sofia yw ei wir gariad, ond mae hefyd yn honni ei fod yn cael ei sgamio. Mae'n debygol ei fod wedi bod yn destun e-bost sgam. Mae Sofia'n honni ei bod angen arian ar gyfer ei chartref yn yr UDA. Mae'r rhifau cyswllt y mae Sofia wedi bod yn eu defnyddio wedi cael eu holrhain i'r UDA, Nigeria a Brasil. Mae swyddogion yr heddlu a ffrindiau'r dyn wedi mynegi iddo eu barn gref ei fod yn ddioddefwr sgam. Mae'r dyn wedi dweud wrth yr heddlu nad yw'n hapus ag amgylchiadau ei wraig na'i gartref - roedd yn byw gyda'i wraig tan ei marwolaeth ddiweddar, ac mae bellach yn byw gyda dau blentyn sy'n oedolion, nid oes ganddynt ddiddordeb ynddo ond mae'n debygol eu bod yn dibynnu arno'n ariannol. Mae'n gwrthod rhoi gwybod i'w deulu beth sy'n mynd ymlaen gyda Sofia. Mae'n parhau i drosglwyddo symiau sylweddol o arian i Sofia. Mae'r arian yn dod o gyfrif ar y cyd a oedd ganddo ef a'i wraig. Mae'r dioddefwr yn gwrthod rhoi manylion am ei gyfathrebiadau a'r trosglwyddiadau ariannol gyda Sofia i alluogi swyddogion i'w holrhain ac i atal trosoddoldeb neu galedi pellach y gall beri i ddioddefwyr eraill.

Gofynnodd yr Arolygydd Lewis ddau gwestiwn i'r Pwyllgor eu hystyried:

- Yn foesegol a ellir caniatáu i'r heddlu ymyrryd mewn amgylchiadau lle mae aelod o'r cyhoedd yn gwario ei arian mewn modd sy'n andwyol i lesiant ariannol yr unigolyn a'i deulu?

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

- Os yw'n foesegol caniatáu i'r heddlu ymyrryd, sut y dylent wneud hynny? Sut y dylai'r heddlu sicrhau bod llesiant dioddefwr a phobl eraill yr effeithir arnynt yn cael ei ddiogelu?

Cwestiynau i gael Eglurhad:

- A fu unrhyw gysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol? A yw'r dioddefwr yn oedolyn sy'n agored i niwed?
    - Yn yr achos hwn, roedd y swyddogion sydd wedi rhyngweithio â'r dioddefwr yn ystyried bod ganddo'r galluedd. Codwyd hysbysiad diogelu'r cyhoedd i'r gwasanaethau cymdeithasol ei ystyried.
    - Nododd y Pwyllgor bod yr achos wedi codi pryder diogelu ehangach - gall unigolyn feddu ar alluedd a bod yn agored i niwed neu ddioddef salwch meddwl ar yr un pryd. Nodwyd hefyd nad cyfrifoldeb y swyddogion yw pennu'n ffurfiol a oes gan y dioddefwr alluedd. Dim ond fel asesiad anffurfiol o alluedd yn unig y gellid ymdrin â'u harsylwadau.
- A yw'r heddlu yn gwybod yn bendant nad yw'r drwgdybiedig yn byw yn ardal De Cymru?
    - Mae'r heddlu yn sicr bod y drwgdybiedig yn byw y tu allan i'r DU. Mae'r rhifau ffôn symudol wedi'u holrhain i dair gwlad wahanol.
- A allai ymchwiliad troseddol fynd yn ei flaen heb sicrwydd ymlaen llaw nad yw'r person yn yr awdurdodaeth?
    - Ni fyddai'r broses gyfredol yn cynnwys ymchwiliad troseddol. Byddai atgyfeiriad, gan gynnwys holl fanylion yr achos, yn cael eu hanfon i Action Fraud a byddent yn gwneud asesiad. Mae'n debygol gydag achosion o'r fath, bod dioddefwyr eraill ledled heddluoedd eraill. Mae Action Fraud yn casglu adroddiadau a gallant benderfynu ar asiantaeth addas neu i barhau ag ymchwiliad troseddol.

Rhagor o wybodaeth:

O safbwynt diogelu'r cyhoedd, ar hyn o bryd, mae pryder ynghylch galluedd meddyliol y dioddefwr o hyd. Nid yw'r swyddogion wedi eu hyfforddi i asesu galluedd meddyliol y dioddefwr nac i bennu a yw'n oedolyn sy'n agored i niwed ai peidio. Byddai hyn yn gofyn am ymgynghoriad pellach gyda'r asiantaethau partner. Mae amharodrwydd y dioddefwr i rannu gwybodaeth bellach yn codi pryderon ynghylch ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol am sefyllfa ariannol y teulu.

Am fod y drwgdybiedig yn byw y tu allan i ardal Heddlu De Cymru, ni fyddai'r achos hwn yn destun ymchwiliad troseddol gan Heddlu De Cymru. Byddai'r dioddefwr yn cael ei gynghori i roi gwybod am yr achos i Action Fraud, a gallai Heddlu De Cymru ei gefnogi o safbwynt agored i newid a'i gyfeirio at wasanaethau diogelu ariannol.

Mae'r Protocol Bancio yn galluogi Heddlu De Cymru i gael atgyfeiriadau uniongyrchol gan fanciau. Caiff yr atgyfeiriadau hyn eu dosbarthu fel cudd-wybodaeth sensitif ac maent yn tynnu sylw at unrhyw bryderon a allai fod gan fanc am wariant cwsmer. Mae cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud gyda'r Cyngor Safonau Proffesiynol i dynnu sylw at bwysigrwydd protocol bancio, oherwydd mae'r person sy'n codi'r arian, mewn sawl achos, yn gwneud hynny am bod aelod o gang twyll sy'n gludwr yn dod i gasglu arian neu am fod y person yn destun twyll rhamant. Cyflwynwyd proses newydd yn gynharach eleni a oedd yn galluogi heddluoedd i wneud atgyfeiriad at y banc. Gelwir hyn yn 'atgyfeiriad agored i niwed' a gellir ei wneud â chydsyniad y person neu hebddo. Gall y banc archwilio unrhyw bryderon a godwyd neu fonitro gwariant neu drafodion y cwsmer yn y dyfodol. Pe byddai'r heddlu yn cyflwyno atgyfeiriad agored i niwed, gall y banc naill ai ffonio'r cwsmer a thrafod ei bryderon neu gallant alw ar brotocol bancio i'r heddlu a fyddai'n cyflwyno ymateb gradd un sy'n gofyn i swyddog fod yn bresennol i siarad â'r cwsmer. Nid yw hyn yn atal priod neu aelod arall o'r teulu rhag bod yn bresennol yn ystod y datgeliad.

Mae'r heddlu yn ymwybodol bod yr arian a geir drwy dwyll yn aml yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhwydweithiau troseddol. Mae enillion troseddau yn mynd tuag at arfau tanio, smyglo a masnachu ym mhedwar ban byd. Felly, mae'n debygol y bydd yr arian a geir drwy dwyll rhamant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi trosoddoldeb pellach.

Cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor:

- Y dioddefwyr posibl eraill yn yr achos hwn yw teulu'r dyn. Yn foesegol, a ellir caniatáu i'r heddlu ddatgelu manylion yr achos i deulu'r dioddefwr?
    - Mae'r dioddefwr wedi gwrthod cymorth yr heddlu drwy gydol yr achos hwn. Gallai'r ffaith bod y dioddefwr yn gwrthod darparu manylion pellach a gwneud cwyn ffurfiol awgrymu ei fod yn atal ymchwiliad, un a allai ei oblygu ef yn y pen draw.
    - Y tro diwethaf i'r dioddefwr wneud cwyn, dywedodd nad oedd am i'w fab gael gwybod am yr achos.
    - Pan oedd ei wraig yn fyw, roedd yn gwario ei harian yn ddiarwybod iddi. Gall hyn fod yn ymddygiad rheolaethol. Mae gwraig y dioddefwr bellach wedi marw. Ni wyddwn a adawodd ei wraig unrhyw arian i'w phlant.
    - Mae'r plant dros 18 oed ac nid oes ganddynt hawl cyfreithiol i'r arian sy'n cael ei drosglwyddo i Sophia. Pe bai'r wraig yn dal yn fyw, gallai ei wario fod wedi ei rhoi mewn caledi ariannol, ac er nad oedd hi'n ymwybodol pan oedd yn fyw, fe'i rhoddodd mewn sefyllfa ariannol llai manteisiol.
    - Yn aml, gall swyddogion FASSO ddarbwyllo dioddefwr i roi gwybod i ffrind neu aelod o'r teulu, ac mae hyn yn atal yr heddlu rhag gorfod torri unrhyw gyfrinachedd.
- A yw'r Protocol Bancio drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau? A oes rhwymedigaeth o dan hynny i atal gwyngalchu arian?
    - Mae'r cudd-wybodaeth y mae'r banc yn ei gyflwyno yn rhwymedigaeth dan y Ddeddf Enillion Troseddau. Maent yn cwblhau Adroddiad ar Weithgarwch Amheus naill ar unigolyn dan amheuaeth neu berson agored i niwed. Mae hyn yn debyg i ffynhonnell

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

gudd - ni chaniateir i'r heddlu ddatgelu mai'r banc a roddodd y wybodaeth. Caiff banciau eu hannog i ddod yn llofnodwyr i'r Protocol Bancio. Mae'r mwyafrif o fanciau mawr ar y stryd fawr wedi cofrestru iddo.

- Dan y Ddeddf Enillion Troseddau, a ellir datgelu gwybodaeth i rywun ar wahân i destun y data?
    - Mae'r unigolyn yn ymddangos yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n mynd rhagddo ac wedi rhannu ei stori â ffrindiau (ond nid ei deulu). Mae'n parhau i wario arian o'i gyfrif banc ei hun ac wedi anwybyddu'r cyngor gan ei ffrindiau a swyddogion yr heddlu. Onid oes ganddo hawl llwyr i wario ei arian fel y mae'n dymuno?
    - Y cwestiwn yw a oes ganddo'r meddylfryd cywir i allu gwneud hyn.
    - Oherwydd bod ei wraig bellach wedi marw, mae rhwystr i ddata gael eu rhannu â'i deulu. Dim ond ar gyfer diogelu eraill a'u hawliau y gellir rhannu gwybodaeth. Rhaid i'r gwaith o rannu data fod yn angenrheidiol ac yn gymesur, ac er diben plismona. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae risg y bydd y dioddefwr yn herio a oedd gan yr heddlu achos cyfiawn dros rannu'r data.
    - Nid oes digon o wybodaeth ar yr achos hwn i sefydlu a oes problem ynghylch ewyllys ei wraig nawr ei bod wedi marw.
    - Mae posibilrwydd y gall y twyll rhamant hwn ddatblygu'n broblem acíwt nawr bod ganddo dŷ a chyfrif banc ei hun, a neb i allu darganfod ei drosglwyddiadau i Sofia.
- Os nad yw'r heddlu'n ymyrryd, a ydynt fwy neu lai yn caniatáu i wyngalchu arian ddigwydd, ac yn ei dro, i'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ariannu rhwydweithiau troseddol?
- Pe byddai rhywun yn gaeth i gamblo, heb boeni dim am eu gweithgarwch gamblo, a fyddai'r heddlu yn cymryd unrhyw ddiddordeb mewn achos o'r fath?
    - Byddai achos o'r fath yn cael ei uwchgyfeirio at yr heddlu pe bai'r gweithgarwch gamblo yn bygwth cyllid y teulu. Er enghraifft pe na fyddai gan y fam arian i brynu bwyd i'w phlant, yna byddai'r gwendidau posibl hyn yn sbarduno pryderon diogelu. Mae twyll rhamant yn cynnwys gweithgarwch troseddol ac mae'n fater plismona.
- Os yw'r unigolyn wedi cael cyngor gan yr heddlu a bod ei ffrindiau'n ymwybodol o'r hyn sy'n mynd ymlaen, ond ei fod yn dymuno parhau, beth yw'r sefyllfa heddlu?
    - Pe bai'r plant yn ymwybodol o berthynas eu tad â'r fenyw, gallent gynnal ymchwiliad eu hunain. Gallai fod heriau sifil, ond ni fyddai hyn yn ddiben plismona.
    - Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gamu i mewn i edrych yn fanylach ar yr hyn sy'n mynd rhagddo. Gallai fod angen gweithiwr cymdeithasol oedolion ar y dioddefwr.
- A oes protocol i swyddogion ei ddilyn wrth ymchwilio i dwyll rhamant?
    - Mae ACEM yn awyddus i gyflwyno canllawiau cenedlaethol yn fuan.
- A ellid rhoi Gorchymyn Rhewi Cyfrif yn yr achos hwn?
    - Byddai angen cynnal ymchwiliad pellach i sefydlu a ellid rhoi gorchymyn o'r fath. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, mai am uchafswm o ddwy flynedd y mae gorchymyn o'r fath yn para.

Trafodaeth y Pwyllgor:

Y banc ddylai fod â'r prif gyfrifoldeb ar gyfer yr achos hwn er mwyn atal symiau mawr o arian rhag cael eu trosglwyddo o gyfrif y dioddefwr i gyfrif y drwgdybiedig. Drwy ddefnyddio cyllid wrth gefn, gall banciau ddigolledu dioddefwyr twyll am symiau a gollwyd ar y sail bod y banc yn esgeulus wrth fethu â stopio'r trafodion twyllodrus. Fodd bynnag, gallai'r banc roi diwedd ar eu perthynas â'r cwsmer os nad ydynt yn credu bod y cwsmer yn ddioddefwr twyll a bod y cwsmer yn parhau i wario er ei fod wedi cael gwybod y gallai fod yn ariannu gweithgarwch troseddol. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â banciau eraill hefyd, a allai arwain at y cwsmer yn methu â bancio, gan effeithio ar ei forgais a'i gytundebau ariannol. Serch hynny, mae gan y banc gyfrifoldeb am ei fod yn rheoli arian y dioddefwr. Mae hyn hefyd yn cyfyngu'r angen i'r heddlu ymwneud ag achosion o'r fath.

Mewn achosion o'r fath, faint o ddyletswydd sydd gan y banc? Mae pobl yn symud symiau mawr o arian o gyfrifon banc bob dydd. Sut y gellir disgwyl i fanciau ymchwilio i alluedd meddyliol ac amgylchiadau personol pobl? Mae hefyd yn amlwg yn yr achos hwn nad yw'r banc yn nodi pob gweithgaredd twyllodrus. Cyfrifoldeb y banc yw nodi unrhyw drafodion anarferol a rhoi gwybod am bryderon o'r fath i'r heddlu. Mae gan endidau masnachol wahanol egwyddorion craidd a ffyrdd o weithredu i endidau cyhoeddus.

Yn yr achos hwn, nid oes llawer mwy y gall yr heddlu ei wneud i helpu'r dioddefwr a'i deulu. Mae'r dioddefwr wedi cael gwybod ei fod yn ddioddefwr twyll rhamant, mae FASSO wedi ymweld ag ef sawl gwaith, ac mae wedi gweld deunydd addysgol am dwyll rhamant. Fodd bynnag, mae'r dioddefwr yn gwrthod newid ei ymddygiad ac mae'n parhau i anfon arian i Sophia. Ni all yr heddlu ei atal rhag gwario ei arian ei hun. Mae gan y banc fwy o bŵer i ymyrryd ac i atal trafodion pellach.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at ddau fater am yr achos hwn: roedd y cyntaf yn ymwneud â galluedd meddyliol y dioddefwr, a'r ail yn ymwneud â chyfrifoldebau diogelu ehangach. Pe byddai gwraig y dioddefwr yn dal yn fyw, gallai'r heddlu fod wedi parhau â'r llwybr diogelu er mwyn ei diogelu hi, oherwydd gallai'r achos fod wedi codi pryderon am gam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth o'i harian. Mae'r rhyngweithio wedi awgrymu bod gan y dyn alluedd a'i fod yn ymwybodol ei fod yn cael ei sgamio, er y nodwyd bod angen gwneud asesiadau pellach. Mewn achosion eraill yn ymwneud â thwyll rhamant, mae'r dioddefwyr hefyd yn ddioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth, a byddai gwasanaeth yr heddlu yn cymryd mesurau diogelu. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r heddlu wedi siarad ag ef, wedi ceisio ei helpu, ac wedi darparu adnoddau addysgol. Mae'n cydnabod, ar lefel deallusol o leiaf, ei fod yn cael ei sgamio, ond mae'n parhau i drosglwyddo arian i'w sgamiwr.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Gwnaeth trafodaeth y pwyllgor am yr unigolyn sy'n agored i niwed dynnu sylw at y ffaith ei fod yn fwy agored i niwed na'r hyn a dybiwyd yn y dechrau. Mae'r dioddefwr yn cysylltu â'r heddlu pan fydd Sophia yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfodydd wyneb yn wyneb y gwnaethant gytuno arnynt. Nid yw methu â bod yn bresennol i ddêts y cytunwyd arnynt yn anarferol mewn unrhyw berthynas rhamantus dynol (gwir neu beidio), ond nid yw'n arferol i'r bobl sy'n wynebu eu perthynas rhamantus beidio dangos eu hwyneb i gysylltu â'r heddlu. Mae'r dioddefwr wedi cysylltu â'r heddlu saith gwaith ar ôl digwyddiadau, a gellid ystyried yr ymddygiad anarferol hwn yn alwad am gymorth. Gall ymddygiad ariannol peryglus fod yn ddangosydd cynnar o gyflyrau megis Parkinson a dementia. Nododd y Pwyllgor bod diffyg eglurder yn y broses y dylai swyddogion rheng flaen wneud gwaith dilynol mewn achosion yn ymwneud â thwyll rhamant. Mae ACEM wedi gofyn am adborth o'r cyfarfod hwn er mwyn llywio prosesau ar gyfer plismona gweithredol. Mae angen ymateb amlasiantaethol ar yr achos hwn - mae angen i bob asiantaeth berthnasol gyfarfod a thrafod ymyriadau a datrysiadau posibl i achosion fel hyn.

Roedd cyn lleied o wybodaeth roedd y swyddogion wedi casglu am y dyn o fod yn rhyngweithio ag ef yn amlwg. Gofynnwyd a allai'r swyddogion fod wedi casglu mwy o wybodaeth fanwl am amgylchiadau ei deulu. Mae ap agored i niwed yn cael ei baratoi ar gyfer Heddlu De Cymru ar hyn o bryd, a dylid cynnwys canllawiau ynghylch twyll rhamant yn yr ap er mwyn cefnogi swyddogion rheng flaen. Gellir integreiddio twyll rhamant i adran 'rheolaeth drwy orfodaeth' yr hyfforddiant diogelu.

Mae Grŵp Cymorth Craffu yn cyfarfod unwaith y mis yn Heddlu De Cymru. Gall pwyntiau cyswllt unigol godi achosion y mae angen cymorth a chanllawiau ychwanegol arnynt. Am nad yw'r achos hwn yn destun cwyn ffurfiol, ac felly nid yw'n ychwanegu at lwyth gwaith unrhyw un yn yr heddlu, ni fyddai'r achos hwn yn cael ei godi yn y grŵp cymorth. Mae ymwneud yr heddlu mewn achosion sy'n ymwneud â thwyll rhamant fel arfer er mwyn cefnogi unigolyn yn hytrach na chynnal ymchwiliad troseddol, oherwydd bod y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys unigolyn a amheuir y tu allan i'r DU. Mae Action Fraud yn rhoi rhestr o ddioddefwyr yn wythnosol i wasanaethau'r heddlu. Yna mae'r swyddogion yn cynnal gwiriad system ar bob dioddefwr er mwyn nodi unrhyw ddigwyddiadau neu wendidau blaenorol. Ar hyn o bryd, caiff y gwaith ei gyflawni gan ddau FASSO, ac maent yn cael 200 o ddioddefwyr yr wythnos.

Awgrymodd y trafodaethau pwyllgor bod angen ystyried datgelu'r data i deulu'r dioddefwr am yr achos hwn ar sail amlasiantaeth. Pe byddai ei wraig yn dal yn fyw, byddai mwy o gyfle i ddatgelu'r wybodaeth. Am ei bod wedi marw, byddai angen cynnal trafodaethau pellach i ystyried buddiannau'r ymyriad gydag asiantaethau eraill sy'n arbenigo mewn twyll a galluedd meddyliol. Byddai angen sefydlu hawliau a rhyddid y dioddefwr ac aelodau ei deulu cyn gwneud penderfyniad ar ddatgelu. Mae enillion troseddau yn faes arbenigol o fewn plismona, ac mae'n hanfodol bod swyddogion yr heddlu yn meddu ar y sgiliau a'r galluoedd gofynnol i fynd i'r afael â'r math hwn o drosedd a'u bod yn gallu cysylltu ag asiantaethau arbenigol. Mae'r broses oedolion sy'n wynebu risg yn dod o dan gyfrol 6 o ganllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd Cymru, dylid ystyried materion am ddatgelu yno.

Crynodeb y Cadeirydd:

Gwnaeth y cyfyng-gyngor twyll rhamant hwn dynnu sylw at ba mor bwysig ydyw bod achosion o'r fath yn cael eu datblygu gan yr asiantaeth gywir er mwyn sicrhau nad yw'r dioddefwr a'i deulu yn cael eu gadael mewn sefyllfa ariannol sy'n agored i niwed, yn agored i amrywiaeth eang o heriau llesiant sy'n gysylltiedig â chaledi ariannol, teimladau o fradychu personol ac embaras cyhoeddus. Mae natur y trais, sy'n aml yn cael ei gyflawni gan bobl dramor, yn golygu nad oes llawer y gall Heddlu De Cymru ei wneud i ymchwilio ac i erlyn troseddau o'r fath. Prif ddyletswydd yr heddlu mewn achosion o'r fath yw diogelu, fel arfer. Cytunodd y Pwyllgor bod dull integredig yn cynnwys asiantaethau partner yn hanfodol mewn achosion yn ymwneud â thwyll rhamant er mwyn cefnogi llesiant y dioddefwr. Mae ymgysylltu ag awdurdodau lleol, y GIG ac eraill yn galluogi mannau gwan posibl ac iechyd meddwl gwael i gael eu nodi a'u hystyried. Byddai dull rhyng-asiantaethol yn hwyluso gwneud penderfyniadau gwell a byddai'n galluogi risgiau gwybodaeth i gael eu rheoli'n llawnach.

O ran a ddylid datgelu ffeithiau'r achos hwn i deulu'r dyn, mae'r gyfraith a moeseg datgelu data yn ddibynnol iawn ar ffeithiau, ac felly yn hyn o beth ychydig iawn o ganllawiau defnyddiol y gall y Pwyllgor eu darparu. Mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn rhag camfanteisio, argymhellwyd y dylid cyflwyno Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd manylach gan swyddogion. Roedd yn syndod y cyn lleied o wybodaeth a oedd yn hysbys am y dioddefwr a'i amgylchiadau personol, er gwaethaf y ffaith iddo adrodd i'r heddlu am y mater saith gwaith. Mae'n bosibl bod rhyngweithio llai gochelgar rhwng y dioddefwr a swyddogion wedi ennyn darlun mwy cyflawn o'r bobl yr effeithir arnynt gan yr achos hwn yn ogystal ag unrhyw bŵer/deinameg teuluol sydd ar waith ynddo. Aeth y Pwyllgor gam ymhellach i gydnabod y dylid rhoi prosesau diogelu ar waith er mwyn lliniaru risgiau sy'n codi ar ôl datgelu data sy'n gysylltiedig â datgelu gwybodaeth sydd o bosib yn ofidus a allai ysgogi argyfwng personol neu wrthdaro teuluol difrifol.

Gwnaeth dwy elfen o dwyll rhamant dynnu sylw arbennig yn ystod y drafodaeth:

1. Moeseg a chyfraith datgelu data i deulu'r dioddefwr am yr achos hwn; a
2. Diogelu'r dioddefwr a'i amddiffyn rhag camfanteisio.

Cynigiodd y Pwyllgor dri cham gweithredu

1. Dylai twyll rhamant gael ei integreiddio'n benodol i waith agored i niwed yr heddlu (gan gynnwys ap agored i niwed yr heddlu sydd ar fin cael ei gyflwyno);
2. Dylid cynnwys twyll rhamant o fewn hyfforddiant ar berthynas rheolaeth drwy orfodaeth; a
3. Dylid sefydlu protocol i swyddogion rheng flaen ei ddilyn mewn achosion a amheuir o dwyll rhamant.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

4.2 Chwistrell Naloxone

Cyflwynodd y Prif Arolygydd Stuart Johnson y dilema ar ddefnyddio chwistrell Naloxone i leihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Yn 2018, cyrhaeddodd marwolaeth oherwydd cyffuriau y lefelau uchaf yng Nghymru, drwy gynyddu dros 84% dros y degawd diwethaf. Yn 2021, cofrestrwyd 332 o farwolaethau yng Nghymru o ganlyniad i wenwyn cyffuriau, cynnydd o 44% o'r flwyddyn galendr flaenorol. O'r rhain, roedd 210 ohonynt o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, sy'n gynnydd o 41%. Y grŵp sylweddau a adroddwyd amdano fwyaf oedd opioidau, gan gofnodi'r defnydd ohono mewn 150 o farwolaethau (71%). Datganwyd bod hwn yn ddigwyddiad critigol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun cyflawni camddefnyddio sylweddau. Ers hynny mae Heddlu De Cymru wedi cyflwyno Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed (2022-2025), sy'n cefnogi'r defnydd o chwistrell naloxone.

Cyflwynwyd peilot naloxone trwynol fel un o sawl menter i leihau niwed a all gyfrannu at y nod o leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Cyflwynwyd y peilot yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot yn 2022. Tua diwedd 2022, cytunodd y Prif Gwnstabl i gyflwyno'r chwistrell naloxone ar sail wirfoddol ledled yr heddlu. Mae strategaeth camddefnyddio sylweddau a lleihau niwed Heddlu De Cymru (2022-2025) yn nodi'r hyn y mae'r heddlu yn mynd i'w wneud i leihau ac atal yr effeithiau niweidiol y mae cyffuriau yn eu cael ar gymunedau. Cafodd y strategaeth ei chreu â mewnbwn gan bartneriaid, ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd ymyrryd yn gynnar, torri'r cylch caethiwed a mynd i'r afael â chyflenwadau.

Bu'r peilot yn mynd rhagddo ledled yr heddlu am tua naw mis. Ers ei gyflwyno, mae defnydd llwyddiannus o chwistrell naoloxone wedi achub bywyd 34 o bobl. Mae'r peilot wedi gwella'r gwaith partneriaeth â chymorth gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Llywodraeth Cymru, arweinwyr lleihau niwed yr awdurdod lleol, BAROD a gwasanaethau cymorth eraill i ddarparu dull ar y cyd i leihau niwed. Ar hyn o bryd, mae gan 314 o wirfoddolwyr yr heddlu y chwistrell naloxone ac mae 385 o becynnau wedi cael eu rhoi i bobl. Mae hyn wedi ymestyn at eu rhoi i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSO) a PCSOs gwirfoddol i ddechrau cario'r chwistrell fis Medi/Hydref 2023. Mae'r heddlu wedi cyhoeddi cyfanswm o 958 pecyn naloxone i bartneriaid a chyfoedion ledled Unedau Rheoli Sylfaenol Caerdydd ac Abertawe. Mae'r chwistrelli hyn wedi cael eu dosbarthu fel rhan o Raglen *Peer 2 Peer.*

Mae rhoi'r chwistrell naloxone wedi cael ei ychwanegu at hyfforddiant cymorth cyntaf ar-lein gorfodol swyddogion a PCSOs. Bydd cwblhau'r hyfforddiant hwn yn gwneud rhywun yn gymwys i ddefnyddio chwistrell Naloxone os byddant yn dymuno'n wirfoddol. Mae'r pecynnau yn ffitio mewn poced ac felly gellir eu cario'n hawdd. Mae cardiau cymorth wedi cael eu llunio a'u cyflwyno gyda'r pecynnau naloxone ar ôl eu defnyddio. Diben y cardiau yw darparu gwybodaeth a chymorth i'r unigolyn sy'n cael y chwistrell naloxone, oherwydd efallai na fyddant mewn cyflwr i ddysgu am wybodaeth o'r fath yn syth ar ôl cael chwistrell. Mae'r cerdyn yn rhestru sefydliadau cymorth, ac mae'n rhoi gwybod i'r unigolyn bod naloxone yn cael ei roi iddynt.

Mae chwistrell Naloxone yn cael gwared ar yr opioidau o'r derbynyddion yn yr ymennydd. Mae effeithiau'r chwistrell naloxone ond yn para am gyfnod byr, a phan fydd y chwistrell wedi gweithio, bydd yr unigolyn yn wynebu risg o ddod yn anymwybodol unwaith eto. Mae chwistrell naloxone yn gweithredu fel adnodd i atal gorddos ac i roi cyfle i'r unigolyn gael triniaeth feddygol gan ein hasiantaethau partner - os na fydd yr unigolion yn cael triniaeth yn fuan ar ôl cael chwistrell naloxone, gallant ailwaelu. Rhoddir dwy chwistrell naloxone i'r swyddogion.

Mae'r chwistrell naloxone yn fwy diogel i swyddogion ei ddefnyddio na'r pigiad naloxone a oedd yn cael ei ddefnyddio cyn hynny. Mae'r chwistrell yn cael effaith ar yr unigolyn yn fwy araf fel bod y broses o oresgyn y cyflwr gorddos yn digwydd yn fwy graddol. O ganlyniad, maent yn tueddu i fod yn llai bygythiol tuag at swyddogion. Nid yw'n orfodol cario'r chwistrell, a gall swyddogion a PCSOs ddewis cario chwistrelli naloxone yn wirfoddol.

Gwyddom fod gan naloxone y gallu i achub bywydau yn Ne Cymru. Fodd bynnag, mae rhai ffederasiynau ac undebau'r heddlu yn ei wrthwynebu. Mae'r pryderon yn cynnwys bod swyddogion a PCSOs sy'n rhoi naloxone yn enghraifft o'r heddlu yn gwneud swydd sefydliadau eraill, ac mai Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ddylai ymateb i'r digwyddiadau hyn. Mae pryderon hefyd wedi'u codi ynghylch iechyd a diogelwch swyddogion, ac ymchwiliadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu lle mae unigolion wedi marw er eu bod wedi cael naloxone gan swyddog.

<u>Cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor:</u>

- Beth yw pryder Ffederasiwn yr Heddlu â swyddogion yn ymateb i ddigwyddiadau'n ymwneud â gorddos? Byddai'r heddlu yn rhoi CPR mewn amgylchiadau eraill. A yw eu pryder yn ymwneud â'r ffaith bod naloxone yn feddyginiaeth?
    - Ydy, mae'r feddyginiaeth yn bryder, ond y pryder mwyaf yw rhoi'r gwasanaeth gorau i'r unigolion a thrwy wneud hyn mae'r heddlu yn cyflawni rôl sy'n cael ei chyflawni'n well gan sefydliadau eraill e.e. bydd angen ymyrraeth feddygol ar ôl cael naloxone. Mae angen cydnabod lle dylid tynnu'r llinell. A yw'r ffaith bod swyddogion yn cario chwistrell naloxone yn golygu y dylent gario EpiPen ar gyfer alergeddau ac inswlin ar gyfer diabetes a meddyginiaeth eraill? Mae pryder sy'n arwain at bryder arall.
    - Un ymateb i'r pryder sy'n arwain at bryder arall yw bod problem aciwt gyda gorddosau a achosir gan opiadau yn Ne Cymru, felly mae'r swyddogion yn debygol iawn o ddod ar draws amgylchiadau lle bydd naloxone yn achub bywydau.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

- Mae Heddlu'r Alban wedi bod drwy'r broses lle roedd cario naloxone yn wirfoddol ond bellach yn orfodol, a nodwyd bod eu Ffederasiwn bellach yn cefnogi hyn. Beth a ganiataodd i hyn ddigwydd?
    - Roedd eu Prif Gwnstabl yn gefnogol iawn o'r fenter. Prif bryder y Ffederasiwn yw bod y swyddogion yn agored i ymchwiliadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu mewn achosion o farwolaeth ar ôl i swyddog yr heddlu fod mewn cysylltiad ag unigolyn. Mae Heddlu'r Alban wedi cadarnhau na fyddai hyn yn digwydd pe bai'r chwistrell yn cael ei ddefnyddio'n ddidwyll ac yn unol â'r hyfforddiant.
    - Rôl graidd swyddog yr heddlu yw cadw bywyd ac eiddo. Mae defnyddio chwistrell naloxone yn cyd-fynd â'r ddyletswydd hon.
    - Mae'r Ffederasiwn hefyd wedi codi pryderon am y defnydd anghywir o'r chwistrell pan fydd y chwistrell yn achosi neu'n cyfrannu at farwolaeth drwy adwaith andwyol. Felly mae'r Ffederasiwn wedi bod yn edrych am sicrwydd gan adrannau safonau proffesiynol a'r Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Pe bai rhywun yn marw os na fyddai naloxone wedi cael ei roi, yr unig beth mae ei roi i'r unigolyn yw mantais iddo.

Rhagor o wybodaeth:

Nid oes unrhyw farwolaethau nac adweithiau andwyol wedi'u cofnodi ar ôl rhoi chwistrell naoloxone yn ystod peilot Heddlu De Cymru.

Mae Ffederasiwn yr Heddlu o fewn Heddlu De Cymru wedi mynegi pryderon o amgylch ymchwiliad swyddogion a PCSOs ac ofn diffyg gweithredu - a fydd y swyddogion yn gwneud eu hunain yn destun ymchwiliad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a'r straen a'r beichiau cysylltiedig pe byddant yn rhoi naloxone i unigolyn sydd wedyn yn marw? `Neu a fydd y swyddogion sy'n dewis peidio rhoi naloxone yn destun ymchwiliad am eu dewis i beidio â'i roi? Mae'r broses yn wirfoddol, ac nid oes rheidrwydd ar y rhai sydd wedi cael hyfforddiant ei chwistrellu. Fodd bynnag, mae ofn y bydd PCSOs a swyddogion yn destun ymchwiliad am beidio â defnyddio'r chwistrell. Mae'r Ffederasiwn hefyd yn poeni bod rhoi'r cyffur hwn yn rhoi PCSOs a swyddogion mewn sefyllfa agored i niwed ac yn cynyddu'r risg o drais sy'n eu hwynebu. Mae mwy o bryderon ar gyfer PCSOs, sydd heb gael hyfforddiant i ddelio â gwrthdaro. Ar hyn o bryd ceisir canllawiau cenedlaethol ac mae angen gwneud mwy o ymchwil er mwyn cyfiawnhau'r risg y mae'r aelodau yn ei wynebu.

Fel rhan o'r adolygiad diweddaraf, gwnaed sawl argymhelliad i'r Prif Swyddogion, ac un o'r rheini oedd rhoi pecynnau naloxone trwynol ym mhob cerbyd yr heddlu. Gall hyn ddirymu'r angen i bawb gael un personol (yn dibynnu ar y rôl) a byddai gan swyddogion yr heddlu/PCSOs afael ar adnodd cymorth cyntaf i achub bywyd rhywun yn hawdd, os bydd angen. Fodd bynnag, mae hyn yn peri cyfyng-gyngor os bydd swyddog yn dewis peidio ei ddefnyddio: a fyddai'r swyddogion/PCSOs yn rhoi eu hunain mewn risg o atebolrwydd sifil neu droseddol (gan gynnwys torri Erthygl 2 o Ddeddf Hawliau Dynol - yr hawl i fywyd) os na fyddant yn dewis ei ddefnyddio?

Trafodaeth y Pwyllgor:

Mae angen ystyried tair prif egwyddor: ofn ymchwiliad;
pryderon bod rhoi chwistrell naoloxone, yn un wirfoddol; a phryderon ynghylch swyddogion yn rhoi eu hunain yn agored i niwed yn ystod ac ar ôl rhoi'r chwistrell. Ar hyn o bryd, caiff naloxone ei roi i staff ar sail wirfoddol, ac mae'n annhebygol y bydd y rhai sydd wedi dewis ei gario yn gwrthod ei ddefnyddio. Mae ymchwiliad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn dilyn rhoi naloxone yn ddidwyll ac yn gywir yn dechnegol yn ddychmygadwy ond yn annhebygol.

Er nad yw ymchwiliadau'n digwydd yn aml, mae angen ystyried y straen y mae ymchwiliad yn ei roi ar swyddog dros sawl mis. Mae cario naloxone yn beth gwirfoddol, ond gall swyddog newid ei feddwl neu efallai y bydd ond yn ei gario pan fydd yn teimlo pwysau gan gyfoed. Ar hyn o bryd, mae cario'r chwistrell yn parhau i fod yn wirfoddol, ond mae cynlluniau'r heddlu yn cynnwys ystyried gwneud cario'r naloxone yn orfodol i bob swyddog yn y dyfodol, lle caiff hyn ei gefnogi gan ganllawiau cenedlaethol.

Efallai nad yw'r pryderon iechyd a diogelwch ynghylch ymddygiad ymosodol a thrais gan unigolyn yn wahanol i ymdrin â phobl sydd wedi cymryd cyffuriau (ac sy'n afreolus). Mae'r swyddogion a'r PCSOs wedi cael hyfforddiant ar reoli gwrthdaro. Mae natur plismona yn ei wneud yn amhosibl cael gwared ar bob risg.

Mae'r amgylchedd gweithredu ar gyfer PCSOs yn wahanol i amgylchedd gweithredu swyddog. Mae gan swyddogion fynediad at fwy o gyfarpar y gellir ei ddefnyddio i reoli sefyllfaoedd sy'n mynd y tu hwnt i reolaeth. Nid oes gan PCSOs y gafael ar y cyfarpar hyn ac mae angen mwy o ymchwil ar ddiogelwch PCSOs sy'n defnyddio naloxone.

Mae'r byd cyffuriau yn datblygu o hyd gyda chyffuriau yn dod yn fwy cryf ac yn fwy trosglwyddadwy yn yr aer. Mae'r heddlu wedi cyflwyno staff sy'n gallu profi ystafelloedd gweithredu am ronynnau a drosglwyddir yn yr aer y gellir eu hanadlu neu eu mewnsugno drwy'r croen. Mae'r cyffuriau hyn yn dod yn fwy cyffredin ac mae'r risg y mae swyddogion yn ei wynebu yn cynyddu.

Os oes disgwyl i naloxone gael ei ddefnyddio, boed drwy ei osod yng ngherbydau'r heddlu neu gael ei roi i bob swyddog, mae cyfyng-gyngor moesol yn codi. Yn nodedig, mae dyletswydd i swyddogion/PCSOs amddiffyn yr hawl i fywyd. Ar hyn o bryd, mae rhai cerbydau'r heddlu yn cario diffibrilwyr, ond mae mwy o angen iddynt gario naloxone, o wybod pa mor aml y mae swyddogion yn dod ar draws unigolion sydd wedi cymryd gorddos (ar opiadau). Bydd disgwyl i swyddogion sydd wedi cael hyfforddiant ar ddiffibrilwyr ei ddefnyddio - sydd yn ei dro yn arwain at y cwestiwn a oes gwahaniaeth moesegol rhwng defnyddio diffibriliwr a defnyddio chwistrell naloxone?

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Nid oes mwy o debygrwydd o ymchwiliad yn codi o ddefnyddio diffibriliwr nag o ddefnyddio naloxone. Mae diffibrilwyr yn wirfoddol, ac mae'n ymddangos nad oes dadleuon ynghylch gwneud defnyddio diffibrilwr yn orfodol. Efallai bod y pryder a fynegodd y Ffederasiwn a'r Undeb yn deillio o'r risg o drais sy'n codi yn hytrach na risg yr ymchwiliad?

Mae unrhyw farwolaeth yng nghadwraeth yr heddlu yn creu atgyfeiriad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Os bydd swyddogion yn dewis peidio defnyddio'r chwistrell oherwydd ofn ymchwiliad o'r fath, efallai bod angen ei gwneud yn glir beth fyddai'r canlyniad gan nodi'r ymholiadau sy'n cael eu gwneud gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gan y Ffederasiwn e.e. os bydd swyddogion yn cael eu galw i sefyllfa lle mae posibilrwydd y gall rhywun farw, cymryd pob gofal rhesymol i ymarfer eu hyfforddiant a gweithredu'n ddidwyll i achub bywyd peron, bydd yr ymchwiliad yn cydnabod nad oes unrhyw gamwri'n cael ei gyflawni yn y mwyafrif o achosion. Mae dyletswydd i gynnal bywyd os nad yw hynny'n peri risg afresymol i'r swyddog. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad yw'r risg i'r swyddogion a'r PCSOs (a'r gwahaniaethau posibl yn y risg i bob un) o roi'r naloxone wedi ei fesur.

Gellir dadlau bod gwrthod defnyddio naloxone pan fydd ar gael a phan fo'n amlwg y gall ei ddefnyddio achub bywyd rhywun achosi cymaint o graffu ag achosion pan gafodd ei ddefnyddio ond na lwyddwyd i achub bywyd rhywun.

Crynodeb y Cadeirydd:

Cydnabu'r Pwyllgor bod pryderon iechyd a diogelwch yn codi mewn perthynas ag ymddygiad ymosodol a thrais yn ystod ac ar ôl rhoi naloxone. Fodd bynnag, er bod risg o gyflawni'r ddyletswydd hon, nid yw'r risg yn ymddangos yn wahanol i'r risgiau y mae swyddogion yn eu cymryd yn eu gwaith bob dydd. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor y byddai ymchwil bellach ynghylch y risg sy'n gysylltiedig â PCSOs yn rhoi chwistrell naoloxone yn werthfawr, oherwydd mae eu hamgylchedd gweithredu yn wahanol i amgylchedd swyddogion, ac mae gan swyddogion afael ar gyfarpar ychwanegol er mwyn diogelu eu hunain ac nid oes gan PCSOs y gafael ar y cyfarpar hyn.

Nid oedd cymorth ymysg aelodau annibynnol am y pryder bod ofn ymchwiliad Swyddfa Annibynnol yr Heddlu yn cyfiawnhau swyddog neu PCSO i wrthod rhoi naloxone. Os gall swyddog achub bywyd rhywun ac achosi cyn lleied o risg iddo'i hun mewn modd sy'n gyson â'i gyfrifoldebau proffesiynol, yna yn foesegol, mae rhwymedigaeth arnynt i wneud hynny. Mae'r ddyletswydd i achub yn ymddangos yn arbennig o gryf i swyddogion yr heddlu oherwydd mai prif nod plismona yw cynnal bywyd. Hyd yn oed gan alluogi i ddefnyddio naloxone beri risg i'r swyddog sy'n ei roi, nid yw'n ymddangos yn fwy o risg na'r risgiau y mae swyddogion eisoes yn agored iddynt wrth ymdrin ag unigolion sydd wedi cymryd cyffuriau ac sy'n afreolus, er enghraifft.

Oherwydd ei effeithiolrwydd wrth achub bywydau, yn ogystal â'r risg gymharol fach sy'n gysylltiedig â'i roi, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o unrhyw gynnig i wneud defnydd swyddogion a PCSOs o naloxone yn orfodol yn hytrach na gwirfoddol.

5. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / De Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Gwnaeth y Pwyllgor Rhanbarthol gyfarfod ar 3 Gorffennaf. Y prif bwynt o ddiddordeb oedd bod Dr Fay Sweeting, darlithydd seicoleg ym Mhrifysgol Bournemouth wedi sôn yn y cyfarfod am ei hymchwil ynghylch camddefnyddio rôl sy'n cael ei gyflawni gan swyddogion at ddibenion rhywiol.

6. Unrhyw Fater Arall

Roedd cwestiwn ynghylch ymestyn telerau swydd aelodau annibynnol cyfredol. Bydd canllawiau yn cael eu ceisio gan Nia Brennan cyn y cyfarfod nesaf ar newid y cylch gorchwyl er mwyn hwyluso hyn.

7. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2023

Dydd Iau, 14 Rhagfyr, 12.30 - 15.30 p.m.